

## **Datganiad Caethwasiaeth Fodern**

**Blwyddyn Ariannol: 1 Ebrill 20 hyd at 31 Mawrth 21**

### **Trosolwg**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus statudol ac yn ôl disgrisiwn, trwy ei weithlu ei hun a thrwy dros 4,500 o sefydliadau preifat a sefydliadau trydydd sector.

Ym mis Mehefin 2018, cofrestrodd y Cyngor ar gyfer Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae 12 ymrwymiad y Cod yn cynnwys mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern a Masnachu Mewn Pobl. Mae'r Datganiad hwn yn gosod allan y camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i sicrhau nad yw Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Mewn Pobl yn digwydd yn ei fusnes neu ei gadwyni cyflenwi ei hun.

Mae'r Cyngor yn gwbl ymroddedig i sicrhau bod y Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn weledol ac i sicrhau 'Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi'. I'r perwyl hwn mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ehangach, cyflenwyr, darparwyr gwasanaeth ac eraill i fynd i'r afael â heriau Caethwasiaeth Fodern a llywio camau gweithredu ar y cyd er mwyn lleihau'r risgiau a nifer yr achosion o Gaethwasiaeth Fodern.

### **Beth yw Caethwasiaeth Fodern?**

Yn y DU mae Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn diffinio troseddau caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol a masnachu mewn pobl, ac mae'n cynnwys mesurau i amddiffyn dioddefwyr posibl.

Caethwasiaeth yw unrhyw system lle mae egwyddorion cyfraith eiddo yn cael eu defnyddio ar gyfer pobl, sy'n caniatáu i unigolion fod yn berchen, prynu a gwerthu unigolion eraill.

Mae dioddefwyr yn cael eu masnachu dros y byd i gyd am ychydig iawn o arian neu am ddim - gan gynnwys i mewn ac o fewn y DU. Mae'n bosibl y cânt eu gorfodi i weithio yn y masnach rhyw, caethwasanaeth domestig, llafur gorfodol a gweithgareddau troseddol neu gael tynnu eu horganau er mwyn eu gwerthu. Yn 2017 cofnododd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol 193 o achosion o Gaethwasiaeth Fodern, cynnydd o 57% ers 2016.

Nid oes un math nodweddiadol o ddiodefwyr ac ambell waith nid yw'r diodefwyr yn sylweddoli eu bod wedi cael eu hecsploetio a bod ganddynt hawl i gael help a chefnogaeth. Yn aml mae diodefwyr yn cael eu masnachu i wlad dramor lle nad ydynt siarad yr iaith, lle mae eu dogfennau teithio a'u hunaniaeth yn cael eu tynnu oddi arnynt a lle maent yn cael bygythiadau y bydd eu teuluoedd yn cael eu niweidio os ydynt yn ceisio dianc.

### **Polisïau'r Cyngor**

Mae cynllun corfforaethol Cyngor Sir y Fflint yn gwneud trechu tlodi a chydraddoldeb yn ganolbwynt i flaenoriaethau'r Weinyddiaeth. Mae strategaethau a pholisïau allweddol eraill fel a ganlyn:

- Mae **Strategaeth Gaffael Gorfforaethol y Cyngor** yn gosod gweledigaeth glir a chanlyniadau sefydliadol allweddol y ceisir eu darparu trwy weithredu'r Strategaeth. Mae hyn yn cynnwys darparu'r Cod Ymarfer a dileu Caethwasiaeth Fodern, fel bo Cyngor Sir y Fflint yn arwain y ffordd er mwyn gwneud Cymru yn wrthwynebus i Gaethwasiaeth Fodern.

Mae Polisiâu allweddol eraill y Cyngor yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Polisi Gwerth Cymdeithasol** y Cyngor sy'n gosod allan ymrwymiad y Cyngor i Gyflogaeth Foesebol a darparu Buddion Cymunedol. Mae'r Cyngor yn dymuno gweithio gyda sefydliadau sy'n rhannu yr un gwerthoedd;
- Mae'r **Polisi Rhannu Pryderon** yn galluogi staff y Cyngor a gweithwyr contractwyr / cyflenwyr y Cyngor i roi gwybod i'r Cyngor am arferion cyflogaeth anfoesebol;
- Mae'r **Cod Ymddygiad Swyddogion** yn nodi'n glir beth yw cwmpas y camau gweithredu a'r ymddygiad a ddisgwylir gan weithwyr wrth iddynt gynrychioli'r Cyngor. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu yn gywir, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol. Mae'r sefydliad yn ymdrechu i gynnal safonau uchel mewn ymddygiad gweithwyr ac ymddygiad moesebol yn ei holl weithrediadau ac wrth reoli ei gadwyn gyflenwi;
- **Polisi Recriwtio a Dewis** – Mae'r Cyngor yn anelu at recriwtio'r person mwyaf addas i'r swydd bob amser. Mae gan y Cyngor brosesau recriwtio cadarn, sy'n cynnwys gwiriadau hawl i weithio sy'n cydymffurfio â chanllawiau'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod gan ymgeiswyr a ffefrir hawl i weithio yn y DU;
- **Gweithwyr asiantaethau** - mae gan y Cyngor gontract gyda darparwr gwasanaeth a reolir, sef Matrix SCM, i ganfod gweithwyr asiantaeth a staff dros dro. Mae gan Matrix SCM eu Datganiad Caethwasiaeth Fodern eu hunain sy'n gosod allan eu dulliau 'dim goddefgarwch' tuag at Gaethwasiaeth Fodern;
- Mae masnachu plant yn drosedd ac yn enghraifft o gam-drin plant Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â phartneriaid i sicrhau bod unrhyw amheuan ynglŷn ag achosion o gamdriniaeth fel hyn yn cael ei drin yn unol â **Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan**.

### **Cadwyni Cyflenwi'r Cyngor**

Mae'r Cyngor yn gwario dros £197 miliwn y flwyddyn gyda dros 4,500 o gyflenwyr sy'n darparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau. Mae dros 99% o wariant y Cyngor gyda chwmnïau o'r DU. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei gadwyni cyflenwi yn wasgaredig ledled y byd a bod posibilrwydd i rannau o'r gadwyn gyflenwi fod yn gysylltiedig â Chaethwasiaeth Fodern. Mae'r adnoddau sydd gan y Cyngor i fonitro a rheoli ei gadwyni cyflenwi yn brin ac felly bydd yn canolbwyntio ar ei gyflenwyr

uniongyrchol ac yn gofyn iddynt sicrhau nad yw eu cadwyn gyflenwi yn gysylltiedig ag unrhyw Gaethwasiaeth Fodern.

Y sectorau risg uchel ar gyfer Caethwasiaeth Fodern yw amaethyddiaeth, hamdden, lletygarwch, arlwyo, glanhau, dillad, adeiladu a gweithgynhyrchu. Mae adolygiad o wariant y Cyngor wedi dangos bod y Cyngor, yn y rhan fwyaf o'i feysydd risg uchel, yn darparu'r gwasanaethau yn fewnol, yn defnyddio fframweithiau cenedlaethol a/neu gyflenwyr lleol. Credir bod y risg o Gaethwasiaeth Fodern a masnachu mewn pobl yn isel ymysg ei gyflenwyr uniongyrchol.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei gyflenwyr uniongyrchol yn ymwybodol o'i ymrwymiad i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern a masnachu mewn pobl a'u bod hefyd yn deall eu rhwymedigaethau fel cyflenwyr neu gontractwyr y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy wrth ystyried defnyddio cyflenwyr newydd ac mae'n adolygu ei gyflenwyr presennol yn rheolaidd trwy drefniadau rheoli contractau. Mae'r diwydrwydd dyladwy a'r adolygiadau yn cynnwys:

- Mapio'r gadwyn gyflenwi mewn meysydd risg uchel er mwyn asesu risgiau (daearyddol a chynnyrch) Caethwasiaeth Fodern a masnachu mewn pobl;
- Gwerthuso'r risgiau Caethwasiaeth Fodern a masnachu mewn pobl sy'n gysylltiedig â phob cyflenwr newydd;
- Cymryd camau i wella arferion cyflenwyr sy'n is na'r safon, gan gynnwys darparu cyngor i gyflenwyr a mynnu eu bod yn gweithredu Cynlluniau Gweithredu; er enghraifft dangos cydymffurfriad â chanllawiau recriwtio mwy diogel;
- Cymryd rhan mewn mentrau cydweithredol sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol a pholisïau caffael cymdeithasol-gyfrifol yn gyffredinol ac yn enwedig Caethwasiaeth Fodern a masnachu mewn pobl;
- Rhoi cosbau mewn grym ar gyfer cyflenwyr sy'n methu â chyrraedd ei ddisgwyliadau neu wella eu perfformiad yn unol â Chynllun Gweithredu, gan gynnwys darpariaeth i derfynu'r berthynas fusnes;
- Ar gyfer pob gwahoddiad i dendro am fusnes sy'n werth dros £1 miliwn gyda Chyngor Sir y Fflint, bydd disgwyl i'r cyflenwr fod wedi cofrestru â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi. Bydd hyn yn cael ei annog ar gyfer pob tendr arall hefyd.

## **Hyfforddi Gweithwyr**

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddatblygu a darparu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer ei weithwyr, gan gynnwys y Tîm Comisiynu a Chaffael, er mwyn codi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern, cam-drin hawliau dynol a chosbrestu. Bydd hyfforddiant corfforaethol yn cael ei gynnwys fel rhan o raglen dreigl o hyfforddiant ar Reolau'r Weithdrefn Gontractau a Rheolau Caffael cyffredinol.

Bydd y Cyngor yn tynnu sylw pob aelod o staff at yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern ac at wefan <https://www.gov.uk/government/collections/modern-slavery>.

Mae'r Hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern yn mynd i'r afael â:

- Ymarferion prynu'r Cyngor, sy'n dylanwadu ar amodau'r gadwyn gyflenwi ac y dylid eu llunio felly i atal prynu am brisiau afrealistig o isel, defnyddio llafur sy'n talu cyflogau afrealistig o isel neu gyflogau is na'r isafswm cyflog cenedlaethol neu ddarparu cynnyrch o fewn amserlen afrealistig;
- Sut i asesu'r perygl o gaethwasiaeth a masnachu mewn pobl mewn perthynas ag agweddau amrywiol eraill y busnes, gan gynnwys adnoddau a chefnogaeth sydd ar gael;
- Sut i adnabod arwyddion o gaethwasiaeth a masnachu mewn pobl;
- Y camau dechreuol i'w cymryd os oes amheuaeth bod caethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl yn digwydd;
- Sut i uwchgyfeirio materion posibl yn gysylltiedig â chaethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl i'r bobl berthnasol yn y Cyngor (Canolbwynt Diogelu Aml-asiantaeth);
- Yr help allanol sydd ar gael, gan gynnwys y Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern, Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur (GLAA) ac Uned Gorfodi'r Farchnad Lafur;
- Y negeseuon, ysgogiadau busnes neu ganllawiau y gellir eu darparu i gyflenwyr a phartneriaid busnes a chontractwyr eraill i weithredu polisiau gwrth-gaethwasiaeth;
- Y camau y dylai'r Cyngor eu cymryd os nad yw cyflenwyr neu gontractwyr yn gweithredu polisiau gwrth-gaethwasiaeth mewn sefyllfaoedd risg uchel neu weithredu newidiadau i ymarferion busnes sy'n codi o Gynllun Gweithredu, gan gynnwys terfynu'r berthynas fusnes.

### **Beth mae'r Cyngor wedi'i wneud**

Dros y 6 mis cyntaf eleni, mae'n anochel bod yr ymateb i'r epidemig coronafirws wedi effeithio ar gynnydd. Er bod hyn wedi arafu cyflymder y gweithgaredd, gwnaed cynnydd o hyd ac mae'r Cyngor wedi:

- Dechrau'r broses o adolygu ei gadwyni cyflenwi i nodi meysydd risg uchel;
- Cymalau contract a thendr wedi'u hadolygu i wahardd arferion cyflogaeth anfoesegol, sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gaffael, atal pwysau amser a chost gormodol a allai arwain at drin staff yn anfoesegol ac ymgorffori dull dim goddefgarwch tuag at Gaethwasiaeth Fodern.
- Wedi gweithredu ei Bolisi Gwerth Cymdeithasol
- Wedi diweddarau ei Bolisi Chwythu'r Chwiban i'w gwneud hi'n gliriach y gall unrhyw un chwythu'r chwiban i'r Cyngor a'i gwneud hi'n haws i hyn ddigwydd;
- Mae'r holl Dimau Rheoli Categori wedi ymgymryd â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Hyfforddiant Cyflogaeth Foeseogol. Sefydlu Panel Diogelu Corfforaethol; mae Caethwasiaeth Fodern yn eitem sefydlog ar yr agenda;
- Wedi cyflwyno ap i holl ffonau symudol, tabledi ac ipadiaid y Cyngor er mwyn ei gwneud yn hawdd rhoi gwybod am faterion diogelu, a all gynnwys caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

### **Beth fydd y Cyngor yn ei wneud**

Ar ôl sefydlu'r systemau allweddol i atal caethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi, mae angen canolbwyntio ar ymgorffori'r arferion hynny a chodi ymwybyddiaeth / dealltwriaeth o sut maen nhw'n gweithredu.

Cyf	Cam gweithredu	Arweinydd
<b>Comisiynu a Chaffael</b>		
1	<p>Yn unol â chymal 7 y Cod Ymarfer, sicrhau bod y Cyngor yn cynnal adolygiad rheolaidd o wariant ac yn cynnal asesiad risg. Bydd y Cyngor yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi unrhyw gyflenwyr risg uchel ac yn monitro camdriniaeth hawliau dynol ac arferion cyflogaeth anfoesegol a fydd yn dod yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd ac adolygiadau contractau;</li> <li>• Archwilio unrhyw gyflenwr a nodir fel risg uchel trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â staff;</li> <li>• Gweithio gyda'i gyflenwyr Haen 1 i godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern i'w atal rhag digwydd.</li> </ul>	Gwasanaeth Caffael ar y Cyd
2	<p>Hyfforddiant</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trosolwg o Gaethwasiaeth Fodern i'w ddarparu trwy e-ddysgu;</li> <li>• Cadw cofnodion o bwy sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant;</li> <li>• Bydd y Cyngor yn parhau i nodi staff sydd heb wneud hyfforddiant mewn arferion cyflogaeth moesegol – a cheisio datblygu cynhwysedd – gan gynnwys y rheiny mewn Adnoddau Dynol ac aelodau o staff rheng flaen sy'n gweithio yn y Gymuned.</li> </ul>	Gwasanaeth Caffael ar y Cyd ac Adnoddau Dynol
3	Diweddaru'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn flynyddol ac adrodd am gynnydd y Cynllun Gweithredu hwn.	Prif Swyddog Llywodraethu
4	Cyhoeddi ei ddatganiad Caethwasiaeth Fodern yn flynyddol ar ei wefan ac ar TISC.	Prif Swyddog Llywodraethu
5	<p>Datblygu mesurau i nodi Dangosydd Perfformiad Allweddol a fydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant;</li> <li>• Adolygiad o'r system ar gyfer gwirio'r gadwyn gyflenwi;</li> <li>• Datblygu'r broses ar gyfer gwerthuso cyflenwyr presennol.</li> </ul>	Prif Swyddog Llywodraethu

Mae'r Datganiad hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Gabinet Cyngor Sir y Fflint a chaiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.



Llofnod :

Enw : Cynghorydd Billy Mullin

Swydd yn y Sefydliad : Aeold Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau

Dyddiad cymeradwyo : 11.2.21